# Canllaw ar Ddyfeisiau Ocsigen Cludadwy SimplyGo




baywater HEALTHCARE SAPIO GROUP

NHS
Providing NHS services

# Cynnwys


Cyflwyniad i'r Peiriant SimplyGo **3**

Dod i Adnabod Rhannau o'ch Peiriant SimplyGo **4**

Amser Gweithredu Arferol Pecyn Batri Newydd **5**

Sut i Ddefnyddio'r Peiriant SimplyGo **7**

Cyn Defnyddio'r Peiriant **8**

Defnyddio eich Peiriant SimplyGo **10**

Sut i Ddefnyddio'r Troli **11**

Moddau Darparu Ocsigen **12**

Cludo Eich Dyfais SimplyGo **13**

Byddwch yn Ddiogel **14**

Datrys Problemau **15**






ENHANCING LIVES



# Cyflwyniad ar eich Peiriant SimplyGo

Peiriant ocsigen cludadwy yw SimplyGo. Mae'n cynnwys pecyn batri y gellir ei ailwefru, sy'n golygu bod modd ei ddefnyddio y tu allan i'r cartref am sawl awr (mae oes y batri'n dibynnu ar y gosodiad llif).

Dim ond y gyfradd llif a archebir gan eich Gweithiwr Gofal Proffesiynol y dylech chi ei defnyddio. Sylwch y gall gosodiad cyfradd llif y peiriant SimplyGo fod yn wahanol i'r un sydd ar beiriannu ocsigen neu ar silindrau safonol.

**Rhybudd**
Bydd cleifion sy'n cael peiriant SimplyGo yn cael peiriant ocsigen 'sefydlog' hefyd. Dylid defnyddio'r peiriant hwn dros nos, ac eithrio pan fydd eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol wedi dweud fel arall.

Sylwch: Mae eich peiriant SimplyGo yn eiddo i Baywater Healthcare, ac ar fenthyg i'r GIG

(ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)

# Dod i Adnabod Rhannau o'ch Peiriant SimplyGo




**A** Switsh On/Off
**B** Botwm diffodd y larwm
**C** Modd nos
**D** Sgrin arddangos
**E** Addasu'r gyfradd llif
**F** Allfa ocsigen
**G** Handlen
**H** Soced cebl pŵer
**I** Batri

**Rhybudd**
Gwnewch yn siŵr bod y crynodydd yn cael ei gadw ar i fyny bob amser.

Gwnewch yn siŵr bod y gosodiad llif ar y crynodydd wedi'i osod i'r gosodiad llif a gafodd ei archebu gan eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol.

# Amser Gweithredu Arferol Pecyn Batri Newydd

Mae'r tabl canlynol yn dangos yr amser y bydd pecyn batri newydd yn debygol o bara pan fo’r gosodiad ar gyfraddau gwahanol.

| Gosodiad cyfradd llif | Modd llif parhaus (lpm) | Modd llif pwls (gosodiad) |
|---|---|---|
| 0.5 | 3.1 awr | Amh. |
| 1 | 2.3 awr | 3.7 awr |
| 2 | 0.9 awr | 3.5 awr |
| 3 | Amh. | 3.1 awr |
| 4 | Amh. | 2.7 awr |
| 5 | Amh. | 2.3 awr |
| 6 | Amh. | 1.9 awr |

**Rhybudd**

Cadwch eich pecyn batri’n sych bob amser.

Os bydd yn dod i gysylltiad â hylif, peidiwch â’i ddefnyddio a chysylltwch â ni.

Gall pecynnau batri gwlyb achosi peryglon diogelwch, gan gynnwys tân a sioc drydanol.

## Ail fatri

Er mwyn cynyddu'r amser y gallwch chi ddefnyddio eich peiriant SimplyGo y tu allan i'r cartref, rydym wedi rhoi ail fatri i chi. Sylwch y bydd eich dangosydd batri yn dangos 100%, nes bydd y batri cyntaf yn hollol wag.

Er mwyn gwefru eich ail fatri, bydd angen i chi ei gyfnewid â'r un y tu mewn i'r uned, ac yna ei gysylltu â'r prif gyflenwad fel arfer.



# Nodweddion Rheoli ar gyfer y Defnyddiwr




### 1. Pŵer

Troi'r peiriant SimplyGo ymlaen a'i ddiffodd

### 2. Botwm diffodd y larwm

Mae'r botwm hwn yn diffodd y larwm

### 3. Modd

Dewis eich modd: Parhaus, Pwls, Cysgu.

### 4. Sgrin arddangos

Dangos gwybodaeth am sut mae'r peiriant ocsigen yn gweithio

### 5. Plws(+)/minws(-)

+ cynyddu'r gosodiad;
- lleihau'r gosodiad

### 6. Cysylltydd y pigynnau trwynol

Y pwynt cysylltu ar gyfer y pigynnau trwynol

(ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)

# Cyn ei Ddefnyddio

Gwnewch yn siŵr bod y pecyn batri wedi'i osod yn gywir bob amser. Cyn defnyddio'r ddyfais, dylech chi hefyd wneud yn siŵr nad yw'r fewnfa aer a'r fent wacáu wedi blocio, a bod hidlydd y fewnfa aer yn lân.

## Troi eich peiriant SimplyGo ymlaen

Gellir defnyddio'r peiriant SimplyGo gartref, neu gellir ei symud gyda'r troli.

Gallwch chi ddefnyddio eich peiriant ocsigen cludadwy gydag amrywiaeth o ffynonellau pŵer, gan gynnwys:

1. Cyflenwad pŵer AC (prif gyflenwad)
2. Cyflenwad pŵer DC (pwynt gwefru ategolion mewn car)
3. Pecyn batri y gellir ei ailwefru

Mae'r peiriant SimplyGo yn gwefru'r batri pan fydd wedi'i gysylltu â'r prif gyflenwad (AC).

## Cyflenwad pŵer AC (prif gyflenwad)

Pan fydd y peiriant wedi'i blygio i mewn i gyflenwad trydan, bydd y dangosydd pŵer allanol yn dangos ar y sgrin arddangos.

Os oes angen i chi ddiffodd y larwm 'colli pŵer', pwyswch a daliwch y botwm 'diffodd y larwm' i lawr. Bydd cysylltu'r peiriant SimplyGo â chyflenwad pŵer AC allanol hefyd yn diffodd y larwm.

## Cyflenwad pŵer DC (pwynt gwefru ategolion mewn car)

Mae cyflenwad pŵer DC yn caniatáu i SimplyGo weithio mewn cerbyd.

Taniwch eich cerbyd, rhowch y cebl DC yn y twll ar ochr y peiriant SimplyGo. Nesaf, rhowch blwg y cyflenwad pŵer DC yn allfa pŵer eich cerbyd. Ni fydd y pŵer a gyflenwir gan allfa DC yn ddigon i ailwefru'r batri, ond bydd yn ddigon i gynnal y pŵer presennol.

## Amser arferol i wefru pecyn batri

Yr amser arferol i ailwefru batri gwag yw tua 2-3 awr.

**Rhybudd**

Peidiwch byth â defnyddio unrhyw gebl pŵer sydd wedi'i ddifrodi neu wedi'i raflo Gall defnyddio cebl yn amhriodol arwain at berygl o dân neu sioc drydanol.

Tynnwch y cebl pŵer AC o'r wal bob amser cyn datgysylltu'r plwg o'r SimplyGo.

Peidiwch â rhoi'r peiriant SimplyGo mewn soced wal diffygiol a, lle bynnag y bo modd, tynnwch y plwg o'r peiriant pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

# Defnyddio eich Peiriant SimplyGo

## Cam 1 – lleoliad y peiriant SimplyGo

Rhowch y peiriant SimplyGo mewn ystafell sydd â llif aer da, gan wneud yn siŵr nad yw'r fewnfa aer a'r fent wacáu wedi'u rhwystro.

## Cam 2 – cysylltu eich ategolion

Cysylltwch y tiwb â'r allfa ocsigen, cyn cysylltu'r pigynnau trwynol

## Cam 3 – troi eich dyfais ymlaen

Trowch y ddyfais ymlaen drwy bwyso'r botwm 'Power' ddwywaith. Ar ôl i'r botwm gael ei bwyso unwaith, bydd y sgrin arddangos a'r goleuadau yn troi ymlaen. Pwyswch y botwm 'Power' am yr eildro i droi'r peiriant ymlaen yn llwyr.

## Cam 4 – gosod y Modd

Pwyswch y botwm 'Mode'. Sylwer: Os yw'r ddyfais ymlaen a bod y sgrin yn dywyll, bydd pwyso'r botwm am y cyntaf yn troi golau ôl y sgrin ymlaen. Yn yr achos hwn, pwyswch y botwm am yr eildro i ddewis y modd. Daliwch ati i bwyso'r botwm 'Mode' i sgrolio drwy'r moddau gwahanol h.y. Pwls, Cysgu, Llif Parhaus. Ar ôl i'r modd cywir ymddangos ar y dangosydd, rhowch y gorau i wasgu'r botwm ac arhoswch. Bydd y dangosydd yn dychwelyd i'r modd rydych chi wedi'i ddewis.

## Cam 5 – gosod y gyfradd llif

I osod y gosodiad llif, pwyswch y botwm + neu – . I droi'r gosodiad llif i fyny, pwyswch y botwm +. I droi'r gosodiad llif i lawr, pwyswch y botwm –. Gwiriwch y gyfradd llif bob amser wrth droi eich SimplyGo ymlaen.

# Sut i Ddefnyddio'r Troli



1. Gosodwch y troli ar arwyneb gwastad. Gafaelwch yn yr handlen gydag un llaw ac agorwch waelod y troli.

2. Pan fo'r peiriant SimplyGo yn y bag cario, rhowch y peiriant ar waelod y troli a'i glymu'n ddiogel gan ddefnyddio'r strap elastig ar gefn y bag.

3. Pwyswch y botwm "PUSH" ar dop yr handlen. Ar yr un pryd, tynnwch yr handlen i fyny i'r uchder sy'n addas i chi.

4. Rhowch y bag o amgylch handlen y troli gan ddefnyddio strap elastig y bag.

# Moddau Darparu Ocsigen

### Modd pwls

Pan fydd y peiriant SimplyGo yn y modd Pwls, dim ond pan fyddwch chi'n anadlu i mewn y bydd yn darparu ocsigen.

### Modd llif parhaus

Yn y modd llif parhaus, mae'r ocsigen yn llifo'n gyson.

### Modd cysgu

Bydd y peiriant SimplyGo yn darparu ocsigen bob tro y byddwch chi'n anadlu i mewn. Os na fyddwch chi'n anadlu am gyfnod byr, bydd y peiriant yn rhoi llif parhaus o ocsigen i chi nes i chi ddechrau anadlu'n normal unwaith eto. Os ydych chi'n sylwi bod hyn yn digwydd yn aml, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol.

**Rhybudd**
Ni ddylid defnyddio'r modd cysgu oni bai bod eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol wedi eich cynghori i wneud hynny. Yn ystod y nos, dylech chi gael eich cyflenwad ocsigen drwy ddefnyddio'r peiriant ocsigen safonol sy'n dod gyda'ch peiriant SimplyGo.

Ni ddylid defnyddio'r modd dos pwls dros nos, na phan fyddwch chi'n cysgu.

Dylech chi storio'r peiriant SimplyGo mewn lleoliad oer a sych bob amser.

# Cludo Eich Peiriant SimplyGo

Dilynwch y cyngor canlynol wrth gludo eich peiriant SimplyGo

- Sicrhewch bod y peiriant SimplyGo a’r cyflenwad trydan yn ddiogel yn eich cerbyd, bod digon o aer o amgylch y peiriant, a bod y fewnfa aer a’r fentiau gwacáu heb flocio. Gwnewch yn siŵr bod y peiriant SimplyGo wedi’i storio’n ddiogel y tu ôl i’r seddi blaen neu ar y sedd gefn.
- Peidiwch â gadael y peiriant SimplyGo neu’r cyflenwad pŵer DC wedi’i blygio i mewn i’r cerbyd heb i’r injan fod yn rhedeg, a pheidiwch â cheisio cychwyn y cerbyd tra bo’r cyflenwad pŵer DC wedi’i gysylltu â’r cerbyd. Bydd hyn yn draenio batri'r cerbyd.
- Peidiwch â gadael eich peiriant SimplyGo na’ch pecyn batri ar y seddi neu yng nghist eich cerbyd ar ddiwrnod poeth neu oer iawn.
- Codwch y peiriant ocsigen gan ddefnyddio’r handlen ar y troli lle bo hynny’n bosibl.
- Rhowch eich offer o’r golwg pan fyddwch chi’n gadael y car heb oruchwyliaeth.

# Byddwch yn Ddiogel

- Cadwch y peiriant SimplyGo a'r cebl pŵer i ffwrdd oddi wrth arwynebau poeth a fflamau.
- Peidiwch â defnyddio'r peiriant os yw'r cebl pŵer neu'r plwg wedi'u difrodi.
- Dim ond gyda'r ategolion a ddarperir y dylech chi ddefnyddio'r peiriant hwn.
- Diogelwch y peiriant SimplyGo a'r cyflenwadau pŵer rhag unrhyw hylif er mwyn osgoi peryglon posibl h.y. sioc drydanol
- Os yw eich peiriant SimplyGo wedi cael ei ollwng, ei ddifrodi neu wedi dod i gysylltiad â dŵr, cysylltwch â ni.
- Peidiwch â rhoi gwrthrychau i mewn i unrhyw agoriadau yn y peiriant.
- Peidiwch â blocio'r fewnfa aer na'r fent wacáu pan fo'r peiriant SimplyGo ar arwyneb meddal e.e. carped ac ati.
- Peidiwch â rhoi blanced, tywel ac ati dros y peiriant.
- Wrth ddefnyddio peiriant SimplyGo mewn unrhyw gerbyd, gwnewch yn siŵr ei fod wedi'i storio'n ddiogel.
- Peidiwch â difrodi'r pecyn batri. Gall cynnwys y pecyn batri fod yn wenwynig os caiff ei lyncu, a gall fod yn niweidiol i'r croen a'r llygaid. Cadwch y pecyn batri i ffwrdd oddi wrth blant.
- Gall rhoi'r pecyn batri mewn dŵr neu hylifau eraill achosi anaf.
- Peidiwch â gollwng y pecyn batri.

# Datrys problemau



## Beth i'w wneud os nad oes llif ocsigen

Os nad oes ocsigen yn llifo, gall hyn ddangos bod y ddyfais wedi'i diffodd. Rhowch gynnig ar wasgu'r botwm pŵer i'w throi ymlaen ac edrych ar faint o fatri sy'n weddill. Gwiriwch fod y pigynnau trwynol wedi'u cysylltu'n gywir. Os nad yw'r datrysiadau hyn yn gweithio, ffoniwch Baywater Healthcare ar 0800 373580.



## Beth i'w wneud os nad yw'r peiriant SimplyGo yn dod ymlaen

Os nad yw'r peiriant SimplyGo yn dod ymlaen wrth bwyso'r botwm 'on'. Mae'n bosibl nad oes gan y batri ddigon o bŵer i droi'r peiriant ymlaen, dylech blygio'r peiriant i mewn i'r prif gyflenwad trydan i'w wefru. Os nad yw hyn yn gweithio, ffoniwch Baywater Healthcare ar 0800 373580.



## Beth i'w wneud os bydd y larwm yn canu

Wrth ddefnyddio peiriant SimplyGo mewn modd dos pwls, os na fydd y peiriant yn canfod anadl am 60 eiliad bydd y peiriant yn newid yn ôl i'r modd llif parhaus nes bydd yn canfod anadl normal unwaith eto. Os na fydd yn canfod anadl o gwbl, bydd y larwm yn canu. Os na ellir clywed sŵn hisian wrth anadlu i mewn pan fo'r peiriant ar fodd dos pwls, mae'n bosibl y bydd angen adolygiad clinigol arnoch chi. Cysylltwch â'ch Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol.

(ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Baywater Healthcare**
Wulvern House
Electra Way
Crewe
Cheshire
CW1 6GW

Ffoniwch: 0800 373580

healthuk@baywater.co.uk
@BaywaterHealth
Baywater Healthcare
Baywater Healthcare

baywater HEALTHCARE
SAPIO GROUP

ENHANCING LIVES

This leaflet is also available in English

24/764/UK-JUL26 v2